# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Adran 6

# Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau

## Adrodd ar Adran 6 - Cwestiynau Cyffredin i Gynghorau Tref a Chymuned

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adrodd ar Adran 6 - Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau - Cwestiynau Cyffredin ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned

## Pam mae'n rhaid ysgrifennu adroddiad ar ddyletswydd adran 6 ynghylch bioamrywiaeth?

Mae'n rhaid i Gynghorau Tref a Chymuned fod yn ddarostyngedig i ddyletswydd bioamrywiaeth ac ecosystemau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, gweler y Trosolwg, a rhagor o wybodaeth[1]. O dan adran 6(7) Deddf yr Amgylchedd (Cymru), rhaid i bob awdurdod cyhoeddus gyhoeddi adroddiad ar yr hyn y mae wedi'i wneud i gydymffurfio â dyletswydd adran 6, hynny cyn diwedd 2019 a chyn diwedd bob trydedd flwyddyn ar ôl 2019. Bydd adroddiad adran 6 yn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn agored ac yn atebol o ran ei ddyletswydd adran 6 a gallai fod yn gyfrwng defnyddiol ar gyfer cyfathrebu â rhanddeiliaid, y gymuned a grwpiau busnes. Bydd yn sylfaen hefyd i'r awdurdod cyhoeddus adolygu ei weithgareddau adran 6 a bydd yr holl adroddiadau a gynhyrchir ledled Cymru'n sail ar gyfer gwerthuso'r ddyletswydd adran 6 ar lefel Cymru gyfan.

## Sut adroddiad ddylai hwn fod?

Ni ddylai'r gwaith o ysgrifennu'r adroddiad fod yn feichus a dylai gyfateb â maint a natur eich sefydliad, o ran y gweithgareddau bioamrywiaeth y mae'n ei gynnal.

Rydym yn annog sefydliadau i ddewis eu hunain sut i baratoi'r adroddiad. Yn ddelfrydol, dylai fod yn rhan o'u mecanweithiau adrodd arferol. Er enghraifft, gall yr adroddiad fod yn rhan o adroddiad blynyddol neu'n atodiad iddo, neu'n atodiad neu'n ddiweddariad o gynllun adran 6, neu gallai fod yn adroddiad ar wahân. Yr unig raid at ddibenion y Ddeddf yw ei fod yn cael ei gyhoeddi.

---

## Pryd a ble y dylai'r adroddiad gael ei gyhoeddi?

Dywed is-adran 7 y dylai'r adroddiad cyntaf fod wedi cael ei gyhoeddi cyn diwedd 2019. Yna dylid cyhoeddi pob adroddiad dilynol erbyn diwedd pob trydedd flwyddyn o 2019 ac felly disgwylir yr ail adroddiad erbyn diwedd 2022.

Dylai'r adroddiad fod yn hawdd cael gafael arno - o ddewis felly dylech ei gyhoeddi ar-lein. Anfonwch ddolen ato i'r blwch postio isod ar ôl ichi ei gyhoeddi.

## Beth ddylai fod yn yr adroddiad?

Er ein bod yn annog sefydliadau i gyhoeddi'u hadroddiad mewn ffordd sy'n gyfleus iddyn nhw, mae canllawiau wedi'u paratoi i ddweud beth ddylai'r adroddiad ei gynnwys. Mae'r canllawiau yn hyblyg ond bydd hefyd yn sicrhau peth cysondeb, pan fydd angen gwerthuso holl adroddiadau dyletswydd adran 6 i gyd gyda'i gilydd. Mae

[1]Cewch fwy o fanylion am ddyletswydd adran 6 yn y fan yma.



Llywodraeth Cymru Welsh Government

templed cofnodi byr wedi'u lunio i gynorthwyo Cynghorau Tref a Chymuned ac mae'n bosibl ei weld yma a gellir gweld enghraifft o dempled wedi'i gwblhau yma

Mae'r cynnwys sy'n cael ei awgrymu yn cynnwys cyflwyniad i'r awdurdod cyhoeddus, ei swyddogaethau, a'r dull o lywodraethu o ran bioamrywiaeth; adroddiad ar y camau a gymerwyd, allai gyd-fynd â chwe amcan Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru; ac uchafbwyntiau, prif ganlyniadau ar gyfer bioamrywiaeth, problemau a'r rhwystrau a gafwyd.

Fodd bynnag, gall pob sefydliad, beth bynnag eu maint, gyfrannu yn bositif at gynnal a gwella bioamrywiaeth. Nid drwy reoli tir yn unig, ond hefyd trwy gaffael, polisïau cynaliadwyedd, codi ymwybyddiaeth, hyfforddiant, rhannu meini prawf cyllido ag eraill, neu weithredu mewn partneriaeth ag eraill.

Rhaid i awdurdod cyhoeddus sydd wedi cyhoeddi cynllun adran 6 adolygu'r cynllun yng ngoleuni pob adroddiad adran 6 y mae'n ei gyhoeddi. Os cynhelir yr adolygiad cyn cyhoeddi'r adroddiad adran 6, yna gellir nodi canlyniad yr adolygiad hwnnw yn yr adroddiad. Os ydych eisoes wedi paratoi'ch adroddiad yn y fformat sy'n well gennych, mae hynny'n iawn.

**Pwy sy'n gyfrifol am gynhyrchu'r adroddiad?**

Y corff sy'n gwneud y penderfyniadau terfynol neu bennaeth y sefydliad e.e. y clerc neu holl aelodau y gymuned lawn neu bwyllgor cyngor y dref.

**A gaiff yr adroddiad ei werthuso?**

O dan adran 6(8), rhaid i awdurdodau cyhoeddus sydd wedi cyhoeddi cynllun adran 6 adolygu'r cynllun hwnnw yng ngoleuni eu hadroddiad adran 6. Mater i bob awdurdod cyhoeddus yw adolygu'i adroddiad a'i gamau i weld beth sydd wedi'i wneud, beth sydd angen ei wella a sut i wella neu newid ei gynlluniau adran 6 a'i weithgarwch ar fioamrywiaeth yn y dyfodol.

Mewn amser bydd gwerthusiad o'r gwaith adran 6 yn cael ei gynnal ar ôl y cylch adrodd gyntaf, er mwyn sicrhau cysondeb ac i awdurdodau lleol allu dysgu oddi wrth ei gilydd, rhannu gwybodaeth a rhannu arferion da ar gyfer y dyfodol.

Nid oes cyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru i graffu ar gynlluniau neu adroddiadau unigol Adran 6 o dan y Ddeddf.

**Beth fydd yn digwydd os na fyddwn yn cyhoeddi adroddiad?**

Nid oes unrhyw gosbau am beidio â chydymffurfio ar wyneb y Ddeddf. Fodd bynnag, gall unrhyw un herio awdurdod cyhoeddus ynghylch sut y maent yn cydymffurfio â'r ddyletswydd.

Mae natur yn prinhau ar raddfa na welwyd mo'i thebyg erioed yn hanes dynoliaeth, mae rhywogaethau'n diflannu'n gyflymach a bydd effeithiau difrifol hyn yn debygol

bellach o daro pobl ledled y byd. Mae buddsoddi i gynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth ac ecosystemau cydnerth yn rhoi hwb uniongyrchol i iechyd a lles tymor hir economi a phobl Cymru.

Bydd cyhoeddi'r adroddiad yn cyfrannu at y gwerthusiad drwy Gymru gyfan o ddyletswydd adran 6 er mwyn helpu i weithredu yn y dyfodol er lles bioamrywiaeth.

**Beth os nad ydym wedi llunio cynllun adran 6 eto?**

Mae dal amser i awdurdodau cyhoeddus lunio adroddiad ar yr hyn y maent wedi'i wneud i gynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth. Os nad ydych wedi llunio cynllun eto, cewch wneud hyn bellach wedi'r adroddiad, pan fyddwch wedi nodi y cyfleoedd ac unrhyw gamau pellach y gallwch eu cymryd.

**Ble mae cael help gyda'n hadroddiad adran 6?**

Dylai cynhyrchu adroddiad adran 6 fod yn rhwydd, ond os oes gennych gwestiwn, e-bostiwch S6BiodiversityDuty@gov.wales neu wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yma. Mae'n bosibl y bydd Un Llais Cymru neu Gymdeithas Clercod y Cyngor Lleol yn gallu helpu gyda ymholiadau cyffredinol.

**Rhagor o gyngor a chanllawiau**

| |
|---|
| **Canllawiau adrodd ar ddyletswydd Adran 6**<br>Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016: bioamrywiaeth a chydnerthedd dyletswydd ecosystemau: canllawiau adrodd \| LLYW.CYMRU |
| **Adrodd ar Adran 6 – Templed Adrodd ar gyfer Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned**<br><br>Adran 6 Bioamrywiaeth a Chydnerthedd y Ddyletswydd Ecosystemau: templed adrodd \| LLYW.CYMRU |
| **Adrodd ar Adran 6 – Templed adrodd enghreifftiol ar gyfer Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned**<br><br>Adran 6 Bioamrywiaeth a Chydnerthedd y Ddyletswydd Ecosystemau: templed adrodd \| LLYW.CYMRU |
| **Gofyniad adrodd ar ddyletswydd Adran 6: Cwestiynau cyffredin**<br><br>Adroddiad Adran 6 - Y ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau: cwestiynau cyffredin \| LLYW.CYMRU |
| **Cwestiynau cyffredin am ddyletswydd Adran 6** |

| |
|---|
| Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016: dyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau: cwestiynau cyffredin \| LLYW.CYMRU |
| **Canllaw arfer da** – enghreifftiau o gamau gweithredu bioamrywiaeth gan awdurdodau cyhoeddus ledled Cymru<br><br>Wales Biodiversity Partnership - Biodiversity Duty good practice (biodiversitywales.org.uk) |
| **Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru** – gwefan i gael gwybodaeth gyffredinol am fioamrywiaeth a'r hyn y gallwn ei wneud i helpu, ynghyd ag adran benodol ar gyfer y ddyletswydd adran 6.<br><br>Partneriaeth Biomrywiaeth Cymru – Adran 6 – Y ddyletswydd bioamrywiaeth a chdnerthedd ecosystemau |

Llywodraeth Cymru
Welsh Government